# COFNODION O GYFARFOD O'R CYNGOR SIR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - NEUADD Y SIR, LLANDRINDOD DDYDD IAU 17 MAI 2018

YN BRESENNOL

Cynghorwyr Sir MC Alexander, M Barnes, B Baynham, G Breeze, J Charlton, L V Corfield, K W Curry, A W Davies, B Davies, D E Davies, P Davies, S C Davies, M J Dorrance, E Durrant, D O Evans, J Evans, L George, J Gibson-Watt, M R Harris, S M Hayes, H Hulme, A Jenner, E A Jones, D R Jones, E Jones, G Jones, J R Jones, E M Jones, M J Jones, D Jones-Poston, F H Jump, K Laurie-Parry, H Lewis, K Lewis, P E Lewis, I McIntosh, S McNicholas, D Meredith, G Morgan, JG Morris, N Morrison, R Powell, WD Powell, D R Price, GD Price, P C Pritchard, G Pugh, J Pugh, G W Ratcliffe, L Roberts, P Roberts, K M Roberts-Jones, D Rowlands, D Selby, K S Silk, R G Thomas, E Vaughan, M Weale, A Williams, G I S Williams, D H Williams, J Williams, J M Williams, R Williams ac S L Williams

Fe wnaeth y Cadeirydd a oedd yn ymddeol, y Cynghorydd Sir Dai Davies, ddiolch i'w wraig, i'w ysgrifenyddes ac i'r aelodau am eu cefnogaeth yn ystod ei flwyddyn yn y swydd. Talodd yr aelodau deyrnged i'r Cynghorydd Davies.

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Cafodd y Cynghorydd Sir David Meredith ei enwebu gan Sir Frycheiniog.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Sir David Meredith yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn nesaf.**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Cafodd y Cynghorydd Sir Beverley Baynham ei henwebu gan Sir Faesyfed.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Sir Beverley Baynham yn Is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn nesaf.**

## 3. ETHOL IS-GADEIRYDD CYNORTHWYOL

Cafodd y Cynghorydd Sir Gwynfor Thomas ei enwebu gan Sir Drefaldwyn.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Sir Gwynfor Thomas yn Is-gadeirydd Cynorthwyol ar gyfer y flwyddyn nesaf.**

## 4. YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Sir L Fitzpatrick, S Lewis, M Mackenzie, C Mills, T Van-Rees a J Wilkinson a'r Prif Weithredwr Dros Dro a gan y Cynghorwyr Sir E Roderick a D Thomas a oedd ar fusnes arall yn ymwneud â'r cyngor.

| 5. | DATGAN BUDDIANNAU |
|---|---|

Fe wnaeth pob Aelod ddatgan buddiant personol ond heb fod yn rhagfarnus o safbwynt Cyflogau, Lwfansau a Threuliau Aelodau yn unol â pharagraff 12 (2)(b)(iv) o'r Cod Ymddygiad.

| 6. | STRWYTHUR Y PWYLLGORAU CRAFFU |
|---|---|

Bu'r Cyngor yn ystyried argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar newid strwythur y pwyllgorau craffu, fe'u cynigiwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor, y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan welliant, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Sir Beverley Baynham.

i. Y dylai'r Cyngor gael 3 phwyllgor craffu fel y nodir isod:

- Pwyllgor Archwilio (i gynnwys Gwneud iddo Ddigwydd);
- Pwyllgor Craffu Dysgu, Sgiliau a'r Economi;
- Pwyllgor Craffu Gofal Iechyd a Thai;

Hefyd ceir Pwyllgor Craffu ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydlwyd dan drefniadau ar wahân, sy'n cynnwys Aelodau a chynrychiolwyr o sefydliadau eraill.

ii. Bod swyddogaeth pob pwyllgor craffu yn cael ei datgan yn Atodiad A i'r penderfyniad a bod Rheol 7.4 o'r Cyfansoddiad drwy hyn yn cael ei diwygio'n unol â hynny.

iii. Bod gofyn i Dwrnai'r Cyngor ystyried a oes diwygiadau dilyniannol yn ofynnol i rannau eraill o'r Cyfansoddiad, ac os felly trefnu i'r diwygiadau gael eu trafod yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'u cymeradwyo yn y Cyngor Llawn.

iv. Bod y strwythur craffu yn (i) uchod yn cael ei adolygu ar ôl 12 mis i sicrhau bod y strwythur yn addas at y diben.

v. Bod rôl y Panel Craffu Cyllid yn cael ei hadolygu gyda chymorth allanol i bennu ffordd ymlaen.

vi. Fel egwyddor gyffredinol, fod pob mater yn cael ei ystyried mewn cyfarfod llawn o Bwyllgor Craffu gydag ambell grŵp gorchwyl a gorffen cyfnod penodol, at ddibenion penodol.

vii. Y dylai'r Pwyllgorau Craffu (heblaw Pwyllgor Craffu'r BGC) gynnwys 21 o Gynghorwyr Sir, ynghyd ag Aelodau cyfetholedig statudol lle bo'n ofynnol (h.y. bydd gan y Pwyllgorau Dysgu a Sgiliau, Economi, Preswylwyr a Chymuned, ac Archwilio aelodau cyfetholedig statudol).

viii. Bod Aelodau, wrth dderbyn enwebiadau am aelodaeth o bwyllgor craffu, yn ymrwymo i fynychu o leiaf 60% o'r cyfarfodydd a drefnir ar gyfer eu pwyllgor craffu.

ix. Bod cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu (heblaw Pwyllgor Craffu'r BGC) yn cael eu cynnal o leiaf bob mis (Heblaw am Awst a Rhagfyr)

x. Bod rôl Cyd Grŵp Llywio'r Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion yn cael ei hadolygu ar ôl cytuno ar strwythur y pwyllgor craffu.

xi. Y dylai cyfarfodydd craffu yn gyffredinol gael eu cynnal yn gyhoeddus oni bai bod materion cyfrinachol yn cael eu trafod.

xii. Y dylai'r Cyngor ymchwilio i'r posibilrwydd o we-ddarlledu cyfarfodydd pwyllgorau craffu i'r dyfodol.

Dywedodd Twrnai'r Cyngor na ragwelai y byddai'r strwythur craffu a gynigir yn y gwelliant yn achosi gorwariant yng nghyllideb yr aelodau.

Pleidleisiodd y Cyngor ar y gwelliant a'i basio o 41 pleidlais i 20 gyda 3 yn ymatal. Yna pleidleisiodd y Cyngor ar y cynnig o sylwedd ac o 40 pleidlais i 20 gyda 3 yn ymatal

**PENDERFYNWYD**

**i. Y dylai'r Cyngor gael 3 phwyllgor craffu fel y nodir isod:**

- **Pwyllgor Archwilio (i gynnwys Gwneud iddo Ddigwydd);**
- **Pwyllgor Craffu Dysgu, Sgiliau a'r Economi;**
- **Pwyllgor Craffu Gofal Iechyd a Thai;**

**Hefyd ceir Pwyllgor Craffu ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydlwyd dan drefniadau ar wahân, sy'n cynnwys Aelodau a chynrychiolwyr o sefydliadau eraill.**

**ii. Bod swyddogaeth pob pwyllgor craffu yn cael ei datgan yn Atodiad A i'r penderfyniad a bod Rheol 7.4 o'r Cyfansoddiad drwy hyn yn cael ei diwygio'n unol â hynny.**

**iii. Bod gofyn i Dwrnai'r Cyngor ystyried a oes diwygiadau dilyniannol yn ofynnol i rannau eraill o'r Cyfansoddiad, ac os felly trefnu i'r diwygiadau gael eu trafod yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'u cymeradwyo yn y Cyngor Llawn.**

**iv. Bod y strwythur craffu yn (i) uchod yn cael ei adolygu ar ôl 12 mis i sicrhau bod y strwythur yn addas at y diben.**

**v. Bod rôl y Panel Craffu Cyllid yn cael ei hadolygu gyda chymorth allanol i bennu ffordd ymlaen.**

**vi. Fel egwyddor gyffredinol, fod pob mater yn cael ei ystyried mewn cyfarfod llawn o Bwyllgor Craffu gydag ambell grŵp gorchwyl a gorffen cyfnod penodol, at ddibenion penodol.**

**vii. Y dylai'r Pwyllgorau Craffu (heblaw Pwyllgor Craffu'r BGC) gynnwys 21 o Gynghorwyr Sir, ynghyd ag Aelodau cyfetholedig statudol lle**

**bo'n ofynnol (h.y. bydd gan y Pwyllgorau Dysgu a Sgiliau, Economi, Preswylwyr a Chymuned, ac Archwilio aelodau cyfetholedig statudol).**

viii. **Bod Aelodau, wrth dderbyn enwebiadau am aelodaeth o bwyllgor craffu, yn ymrwymo i fynychu o leiaf 60% o'r cyfarfodydd a drefnir ar gyfer eu pwyllgor craffu.**

ix. **Bod cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu (heblaw Pwyllgor Craffu'r BGC) yn cael eu cynnal o leiaf bob mis (Heblaw am Awst a Rhagfyr)**

x. **Bod rôl Cyd Grŵp Llywio'r Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion yn cael ei hadolygu ar ôl cytuno ar strwythur y pwyllgor craffu.**

xi. **Y dylai cyfarfodydd craffu yn gyffredinol gael eu cynnal yn gyhoeddus oni bai bod materion cyfrinachol yn cael eu trafod.**

xii. **Y dylai'r Cyngor ymchwilio i'r posibilrwydd o we-ddarlledu cyfarfodydd pwyllgorau craffu i'r dyfodol.**

Cymerodd y Cyngor egwyl rhwng 11.20 a 12.23 i dynnu lluniau ac i benodi aelodau i'r pwyllgorau.

| 7. | CYFLOGAU, LWFANSAU A THREULIAU'R AELODAU |
|---|---|

Bu'r Cyngor yn ystyried adroddiad y Swyddog Adran 151 ar Gyflogau, Lwfansau a Threuliau'r Aelodau ynghyd â'r Rhestr o Gydnabyddiaethau Ariannol Aelodau. Esboniodd y Swyddog Adran 151 fod gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r cyflogau, y lwfansau a'r ffioedd sy'n daladwy i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig o'r Cyngor a osodir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW).

Cynigiodd y Cynghorydd Sir David Jones yr argymhellion yn yr adroddiad ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Sir Hywel Lewis ac o 51 pleidlais i 9 gyda 4 yn ymatal

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| (i) cymeradwyo dyrannu hyd at 18 o Uwch Gyflogau fel y nodir yn adran 4 o'r adroddiad yn amodol ar y diwygiadau i strwythur y pwyllgorau craffu y cytunwyd arnynt yn gynharach yn y cyfarfod.<br>(ii) cymeradwyo'n gyffredinol gynnwys yr adroddiad hwn.<br>(iii) cymeradwyo'r Rhestr o Gydnabyddiaethau Ariannol yr Aelodau yn seiliedig ar yr adroddiad hwn yn amodol ar | I wneud penderfyniadau ynglŷn â Chyflogau, Lwfansau a Threuliau Aelodau yn unol â'r statud a'r adroddiad blynyddol a rheoliadau'r IRPW. |

| | |
|---|---|
| **gynnwys unrhyw ddiwygiadau i Gadeiryddion Pwyllgorau (ynghlwm fel Atodiad i'r adroddiad).** | |

Gadawodd y Cynghorydd Sir Sandra Davies y cyfarfod am 12.32.

| | |
|---|---|
| **8.** | **DYRANIADAU, ETHOLIADAU A PHENODIADAU Y MAE GOFYN EU GWNEUD YNG NGHYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR** |

Bu'r Cyngor yn ystyried adroddiad Twrnai'r Cyngor ar y dyraniadau a'r penodiadau sydd i'w gwneud i bwyllgorau a chyrff allanol.

**Penodiadau Gwleidyddol-gytbwys i Bwyllgorau'r Cyngor**

Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Sir Michael Williams ac o 63 pleidlais i 0

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r dyraniad seddi ar Bwyllgorau'r Cyngor i'r gwahanol Grwpiau Gwleidyddol.** | **Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion statudol (gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r angen am gydbwysedd gwleidyddol) a Chyfansoddiad y Cyngor o safbwynt dyrannu a phenodi Cadeiryddion a seddi ar bwyllgorau.** |

Dywedodd Twrnai'r Cyngor nad oedd pob grŵp gwleidyddol wedi rhoi eu henwebiadau i'r pwyllgorau a gofynnodd am gael awdurdod dirprwyedig i dderbyn enwebiadau. Cynigiwyd hyn gan y Cynghorydd Sir Michael Williams ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Sir Phil Pritchard ac o 62 pleidlais i 0

| PENDERFYNWYD: | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Awdurdodi Twrnai'r Cyngor i dderbyn enwebiadau oddi wrth arweinyddion y grwpiau gwleidyddol a chymeradwyo penodiadau i bwyllgorau yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.** | **Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion statudol (gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r angen am gydbwysedd gwleidyddol) a Chyfansoddiad y Cyngor o safbwynt dyrannu a phenodi Cadeiryddion a seddi ar bwyllgorau.** |

**Penodi Cadeiryddion i Bwyllgorau Craffu**

Roedd gan y Grŵp Annibynnol a'r Ceidwadwyr, sy'n ffurfio'r grŵp gweithredol, yr hawl i gael swydd Cadeirydd ar un o'r Pwyllgorau Craffu, a'r Democratiaid Rhyddfrydol yr hawl i gael y swydd ar y llall.

<u>Pwyllgor Craffu Iechyd, Gofal a Thai</u>

Dywedodd y Grŵp Annibynnol a'r Ceidwadwyr mai eu henwebai oedd y Cynghorydd Sir Gwilym Williams. O 62 pleidlais i 0

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Sir Gwilym Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai.**

<u>Pwyllgor Craffu Dysgu, Sgiliau a'r Economi</u>

Yr enwebai gan grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol oedd y Cynghorydd Sir Pete Roberts. Gwnaeth y Cynghorydd Roberts ddatganiad personol yn esbonio problemau iechyd a oedd wedi ei rwystro rhag mynychu nifer o gyfarfodydd. Cafwyd 20 pleidlais dros enwebiad y Cynghorydd Roberts a 33 yn erbyn gyda 9 yn ymatal.

Cymerodd y Cyngor egwyl rhwng 12.50 a 13.30.
Gadawodd y Cynghorydd Sir Phil Pritchard y cyfarfod.

Pan ailgynullodd y Cyngor dywedodd arweinydd grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol na fyddai'r grŵp yn cyflwyno enwebiad arall i'r cyfarfod a gofynnodd i'r eitem hon gael ei gohirio. Dywedodd nad oeddent yn y gorffennol yn arfer pleidleisio yn erbyn enwebai grŵp a gofynnodd pam y cynhaliwyd pleidlais. Yn absenoldeb enwebai gan grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol, cyngor Twrnai'r Cyngor oedd y dylai'r Pwyllgor Craffu Dysgu, Sgiliau a'r Economi benodi'r Cadeirydd. Mynegodd y Cynghorydd Sir Jackie Charlton ei siom na chefnogwyd enwebiad y Cynghorydd Roberts gan ddadlau bod hyn yn wahaniaethol ac yn gam yn ôl yn y ffordd yr oedd y Cyngor yn trin pobl anabl.

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
Cynigiwyd y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance gan y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Sir Susan McNicholas ac o 58 pleidlais i 1

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Sir Matthew Dorrance yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.**

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

O 59 pleidlais i 0 gydag 1 yn ymatal

**PENDERFYNWYD gwneud y penodiadau canlynol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

| | |
|---|---|
| **Grŵp Annibynnol** | **Cynghorwyr Sir:<br>Michael J. Jones<br>Karen Laurie-Parry<br>Phil Pritchard<br>Edwin Roderick** |
| **Ceidwadwyr Cymru** | **Cynghorydd Sir:<br>Iain McIntosh** |
| **Democratiaid Rhyddfrydol** | **Cynghorwyr Sir:** |

| | |
|---|---|
| **Cymru** | **Gareth Ratcliffe**<br>**Emily Durrant** |
| **Llafur Cymru** | **Cynghorydd Sir:**<br>**Susan McNicholas** |

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Enwebwyd y Cynghorwyr Sir Aled Davies, Matthew Dorrance, Rosemarie Harris, Stephen Hayes a Roger Williams. Yn dilyn pleidlais

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorwyr Sir Aled Davies, Rosemarie Harris a Stephen Hayes i Gyngor CLILC.**

**Bwrdd Gweithredol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

O 50 pleidlais i 7

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Sir Rosemarie Harris i Fwrdd Gweithredol CLILC.**

| | |
|---|---|
| **9.** | **PENODI I'R PANEL MAETHU** |

Ar ran y Cyngor, mynegodd y Cadeirydd ei werthfawrogiad i'r Cynghorydd Sir Maureen Mackenzie sy'n tynnu'n ôl o'r Panel Maethu ar ôl blynyddoedd o wasanaeth. Enwebwyd y Cynghorydd Sir Amanda Jenner a dywedodd y byddai'n hoffi derbyn yn amodol ar gael siarad â'r Cynghorydd Mackenzie am y rôl. O 57 pleidlais i 0

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Sir Amanda Jenner i'r Panel Maethu.**

| | |
|---|---|
| **10.** | **PENODI I FFORWM RHEILFFORDD CALON CYMRU** |

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Sir Maureen Mackenzie i Fforwm Rheilffordd Calon Cymru.**

**Cynghorydd Sir DW Meredith (Cadeirydd)**